# Amodau Cofrestru 2025/26

Cytundeb Atodol ar gyfer Myfyrwyr TAR Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Cymru)

## Cynnwys

Amodau Cofrestru 2025/26 Cytundeb Atodol ar gyfer Myfyrwyr TAR Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Cymru) ... 1

**Cynnwys** ... **1**

**Fformat Amgen** ... **4**

**Cyflwyniad** ... **4**

**Cwmpas** ... **4**

Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu ... 4

Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu ... 5

Tabl 1: Eithriadau i'r Amodau Cofrestru (Cyrsiau a Addysgir) ar gyfer Llwybrau TAR ... 6

**Cymorth a Gwybodaeth** ... **7**

**Sut i gysylltu â ni** ... **7**

Bwlio, Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol ... 7

**Rhoi gwybod am Fwlio ac Aflonyddu** ... 8

**Prif delerau'r Cytundeb Atodol** ... **8**

1 Gofyniad i ddatgelu euogfarnau troseddol, cyfyngiadau cyfreithiol, amodau a materion disgyblu ... 8

2 Gweithdrefnau Cod Ymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer ... 9

3 Ymrwymiad i Addysgu ... 11

4 Ffioedd neu Gostau Astudio ... 13

5 Cytundeb ag Ysgol Bartner a Derfynir gennym Ni ... 14

6 Canslo neu Dynnu eich Cofrestriad yn Ôl ... 15

7 Eich Astudiaethau ... 17

8 Newid Eich Cynlluniau Astudio (Gohirio eich astudiaethau neu Gymryd Seibiant Astudio) ... 18

9 Rhannu Gwybodaeth a Diogelu Data ... 20

**Diffiniadau** ..... **21**
Cod Ymddygiad ac Ymarfer ..... 21
Cyflwyno cymhwyster ..... 21
Tiwtor Cwricwlwm ..... 21
Gohirio eich astudiaethau neu Gymryd Seibiant Astudio ..... 21
E-Bortffolio ..... 21
Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo ..... 22
Ysgol Arweiniol ..... 22
Awdurdodau Lleol / Hwb ..... 22
Y Mentor ..... 22
Modiwl ..... 23
Llwybr Rhan Amser ..... 23
Ysgol Bartner ..... 23
Ymarfer dysgu/dysgu seiliedig ar ymarfer ..... 23
Cyfnodau Ymarfer Dysgu ..... 23
Tiwtor Ymarfer ..... 23
Y Gofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru ..... 23
Llwybrau'r cymhwyster TAR ..... 24
Llwybr Cyflogedig ..... 24
Cydlynydd Ysgol ..... 24
Ail Ysgol ..... 24
Recriwtio a Chymorth Myfyrwyr ..... 24
Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr ..... 25
Ni/Ein ..... 25
Chi 25
**Deddfwriaeth a Pholisïau Cysylltiedig** ..... **25**
Dogfennau sy'n llywodraethu eich astudiaethau: ..... 25
Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data ..... 25
Safonau'r Gymraeg ..... 26
Gwerthoedd Siarter Ein Myfyrwyr ..... 26
Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ..... 26

Datganiad yr Elusen........................................................................................26

**Ynglŷn â'r Ddogfen hon........................................................................................27**

Crynodeb o'r Newidiadau Sylweddol ers y fersiwn flaenorol.............................27

Cytundebau Atodol a ddisodlir gan y ddogfen hon ...........................................28

Gwybodaeth am y Ddogfen...................................................................................29

**Atodiad A.......................................................................................................30**

Tabl 2: Amgylchiadau lle y gellir ystyried caniatáu i Fyfyrwyr ohirio neu gymryd seibiant astudio i gwblhau rhaglen TAR (Cymru) ac ennill y cymhwyster. 30

## Fformat Amgen

If you require this Conditions of Registration 2025/26 Supplementary Agreement for PGCE Students Postgraduate Certificate in Education (Wales) document in an alternative format please Contact Us (visit www.open.ac.uk/contact), telephone us on +44 (0)300 303 5303, or get in touch with your Student Support Team via StudentHome if you are a current Open University student.

Mae croeso i Fyfyrwyr a Dysgwyr Cymraeg eu hiaith siarad â chynghorydd cymorth myfyrwyr yn Gymraeg drwy ffonio +44 (0) 29 2047 1170. Rydym yn croesawu cyswllt yn Gymraeg

An English language version of this policy is available.

An English language version of this policy is also available.

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r telerau ychwanegol y cytunwyd arnynt â'r Brifysgol Agored mewn perthynas ag astudio ar gyfer cymhwyster TAR (Cymru). Dylid ei darllen ar y cyd â'r ddogfen Amodau Cofrestru a'r rheolau, y rheoliadau a'r polisïau y cyfeirir atynt ynddi ac yn y cytundeb hwn.

Drwy gofrestru ar gyfer rhaglen TAR (Cymru), rydych yn cytuno i'r telerau a nodir yn yr Amodau Cofrestru (heblaw am yr eithriadau a restrir yn Nhabl 1 isod) ynghyd â'r rhai hynny a restrir yn y ddogfen hon. Mae rhestr o Ddiffiniadau wedi'i chynnwys i esbonio'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon.

Drwy'r ddogfen hon, mae 'ni' neu 'ein' yn cyfeirio at Y Brifysgol Agored. Mae 'chi' yn cyfeirio atoch chi fel y Myfyriwr.

## Cwmpas

### Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Mae'r Cytundeb Atodol hwn yn berthnasol i Fyfyrwyr sydd wedi cael eu derbyn ar raglen Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Cymru) Y Brifysgol Agored. Mae'n nodi'r telerau ychwanegol mewn perthynas ag astudio cymhwyster TAR (Cymru) o dan y Llwybr Cyflogedig a'r Llwybr Rhan Amser.

Mae Myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer TAR (Cymru) ar y Llwybr Cyflogedig yn aelodau o staff cyflogedig mewn ysgol. Ariennir eu costau astudio'n llawn gan Lywodraeth Cymru drwy 'grant hyfforddi' a thelir cyflog athro heb gymhwyso gan ei sefydliad cyflogi. Byddant yn Fyfyrwyr gyda'r Brifysgol Agored ac yn gyflogeion yn eu Hysgol Bartner sy'n Cymeradwyo. Bydd angen iddynt gofrestru â'r Corff Rheoleiddio (Cyngor y Gweithlu Addysg, CGA) fel Ymarferydd Dysgu Seiliedig ar Waith cyn iddynt ddechrau eu rhaglen TAR, a bydd angen iddynt gydymffurfio â Chod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg.

Bydd Myfyrwyr cyflogedig yn ymgymryd â chyfnodau o ymarfer dysgu mewn ysgol, astudiaethau academaidd a chyflogaeth ar yr un pryd. Caiff eu hymarfer dysgu ei asesu gan fentoriaid, cydlynwyr ysgol, a thiwtoriaid ymarfer; rhoddir mwy o wybodaeth am y rolau hyn yn y rhestr o Ddiffiniadau.

Bydd Myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Llwybr Rhan Amser wedi'u hunanariannu, a byddant yn ymgymryd â chyfnodau o ymarfer dysgu yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a thrwy gytundeb â'u hysgolion partner. Yn yr un modd â Myfyrwyr cyflogedig, caiff eu hymarfer dysgu ei asesu gan fentoriaid, cydlynwyr ysgol, a thiwtoriaid ymarfer.

Ar ôl ennill cymhwyster TAR (Cymru) yn llwyddiannus, bydd Y Brifysgol Agored yn argymell i Gyngor y Gweithlu Addysg y dylid dyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC).

## Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

**Nid** yw'r Cytundeb Atodol hwn yn berthnasol i'r canlynol:

- Myfyrwyr nad ydynt wedi cael eu derbyn ar ein rhaglen TAR (Cymru) eto.
- Mae pob modiwl, cymhwyster neu raglen arall y tu allan i raglen TAR.

Dylai pob Myfyriwr a Dysgwr nad yw'r Cytundeb Atodol hwn yn ei gwmpasu gyfeirio at wefan Polisïau a Rheoliadau Myfyrwyr er mwyn gweld yr Amodau Cofrestru neu'r Telerau ac Amodau sy'n berthnasol iddynt. Os oes angen help arnoch, cysylltwch â ni.

**Tabl 1**: **Eithriadau i'r Amodau Cofrestru (Cyrsiau a Addysgir) ar gyfer Llwybrau TAR**

| **Adran Amodau Cofrestru 2025/26** | **Eithriadau ar gyfer TAR**<br>**Y Llwybr Cyflogedig a'r Llwybr Rhan Amser** |
|---|---|
| Adran A: Eich cytundeb i gofrestru | Nid yw A1.c) y polisi "Derbyn Ymgeiswyr dan 18 Oed" yn berthnasol gan na fydd y rhaglen yn derbyn neb dan 18 oed.<br>Mae A2 Gofyniad i ddatgelu euogfarnau troseddol, cyfyngiadau ac amodau cyfreithiol wedi'i ddisodli gan Adran 1.1 yn y Cytundeb TAR Atodol hwn |
| Adran B: Eich ffioedd | Mae Adran B Eich Ffioedd wedi'i disodli gan Adran 4 yn y Cytundeb TAR Atodol hwn |
| Adran E: Canslo neu Dynnu eich Cofrestriad yn Ôl | Mae E1 Sut i ganslo neu dynnu eich cofrestriad yn ôl wedi'i ddisodli gan Adran 6 yn y Cytundeb TAR Atodol hwn |

Mae'r Cytundeb hwn yn weithredol o'r dyddiad y gwnaethoch gofrestru ar gyfer eich TAR a bydd yn parhau i fod yn berthnasol nes y byddwch wedi cwblhau eich cymhwyster, neu nes y bydd eich cofrestriad wedi dod i ben neu wedi'i ganslo, pa un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.

Gall myfyrwyr wneud cais am TAR (Cymru) gan ddilyn y broses a amlinellir ar dudalen prosbectws ar-lein TAR.

I gael canllawiau penodol ar sut y gall y cytundeb hwn fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau personol chi, cysylltwch â thîm TAR yn Wales-PGCE@open.ac.uk.

# Cymorth a Gwybodaeth

## Sut i gysylltu â ni

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau am gynnwys y ddogfen hon a sut i'w ddehongli, ewch i'r adran Cysylltu â Ni. I weld ein manylion cyswllt, ewch i'r adran Swyddfeydd Y Brifysgol Agored. Gall Dysgwyr Cymraeg siarad â chynghorydd cymorth myfyrwyr yn Gymraeg ar +44 (0) 29 2047 1170.

## Ffioedd Myfyrwyr (Lloegr)

Ffôn +44 (0)1908 653411

neu e-bostiwch studentfees@open.ac.uk

## Eich Swyddfa Genedlaethol

Er mwyn cadarnhau'r manylion cyswllt diweddaraf, gweler Swyddfeydd Y Brifysgol Agored.

## Y Brifysgol Agored yng Nghymru

18 Stryd y Tollty

Caerdydd

CF10 1AP

Ffôn +44 (0)29 2047 1170

Rydym yn croesawu cyswllt yn Gymraeg.

## Bwlio, Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol

Rydym yn ymroddedig i feithrin amgylchedd croesawgar a chynhwysol i bawb; oherwydd hyn, nid ydym yn goddef bwlio, aflonyddu na chamymddwyn rhywiol. Rydym yn ymrwymedig i ymchwilio i faterion sy'n peri pryder a byddwn yn cymryd camau disgyblu priodol pan fydd angen i sicrhau bod ein myfyrwyr a'n staff yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu wrth gydweithio â'i gilydd.

Mae gwybodaeth, dulliau cymorth ac adnoddau ar gyfer myfyrwyr a staff ar gael drwy'r dudalen we Bullying, harassment & sexual misconduct: it’s never OK. Drwy'r dudalen hon gallwch hefyd roi gwybod am unrhyw bryderon am fwlio, aflonyddu a chamymddwyn rhywiol rydych wedi'u profi neu eu gweld.

### Rhoi gwybod am Fwlio ac Aflonyddu

Mae'r Brifysgol Agored yn ymrwymedig i greu amgylchedd amrywiol a chynhwysol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu trin ag urddas a pharch. Ni chaiff gwahaniaethu anghyfreithlon o unrhyw fath ei oddef yn Y Brifysgol Agored. Rydym yn annog myfyrwyr, dysgwyr, ymwelwyr a staff i roi gwybod am achosion o ymosod, bwlio, aflonyddu, trosedd casineb neu aflonyddu rhywiol drwy Rhoi Gwybod a Chymorth. Mae'r llwyfan hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y gallwch ei wneud os bydd yr achosion hyn yn digwydd i chi neu i rywun rydych yn ei adnabod, a ble y gallwch gael cymorth.

## Prif delerau'r Cytundeb Atodol

### 1 Gofyniad i ddatgelu euogfarnau troseddol, cyfyngiadau cyfreithiol, amodau a materion disgyblu

1.1 Mae'n rhaid i chi ddatgelu unrhyw euogfarn droseddol, cyfyngiadau cyfreithiol neu amodau cyn cofrestru neu ar unrhyw bwynt y byddwch yn dod yn destun euogfarn droseddol yn ystod eich astudiaethau. Mae'n debygol iawn y bydd unrhyw euogfarn droseddol, cyfyngiadau cyfreithiol neu amodau yn eich atal rhag astudio TAR (Cymru) gyda ni, ond caiff pob achos ei ystyried yn unigol.

1.2 Mae'n rhaid i bob Myfyriwr feddu ar dystysgrif clirio y Cynllun Datgelu a Gwahardd cyn y gallant gael profiad o addysgu mewn ysgol. Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n ddarostyngedig i orchymyn cyfreithiol, cyfyngiad neu drefniant a osodwyd gan lys neu gorff awdurdodedig ar hyn o bryd neu a ddaw'n ddarostyngedig iddynt, roi gwybod i Gyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd am unrhyw amodau a all eu hatal rhag cymryd rhan lawn yn eu cwrs a chymuned ehangach y Brifysgol yn ddi-oed. O dan amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd yn rhaid i chi roi'r gorau i astudio cymhwyster TAR (Cymru) oherwydd eich bod yn torri'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer (gweler adran 2 isod). Mae'r datgeliad hwn yn ein helpu i gyflawni ein rhwymedigaeth diogelu.

Mae hyn yn cynnwys nodi unrhyw un sy'n destun amodau neu gyfyngiadau penodol fel y Gofrestr Troseddwyr Rhyw a Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol.

1.3 Mae'n rhaid i chi ddatgelu canlyniad unrhyw weithdrefn ddisgyblu rydych wedi bod yn destun iddi, sy'n groes i God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg. Mae'n rhaid i chi ddatgelu'r wybodaeth hon yn ystod y broses ymgeisio neu ar unrhyw bwynt y byddwch yn dod yn destun gweithdrefn ddisgyblu yn ystod eich astudiaethau. Gall methu â gwneud hyn arwain at ohirio'ch cais neu derfynu eich astudiaethau. Bydd Cyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru yn asesu canlyniad y weithdrefn ddisgyblu ac yn penderfynu a yw hyn yn gwarantu tynnu eich cais yn ôl neu derfynu eich astudiaethau.

## 2 Gweithdrefnau Cod Ymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer

2.1 Drwy ymrwymo i'r Cytundeb Atodol hwn, rydych yn cydnabod yn agored eich bod yn deall y Cod Ymddygiad ac Ymarfer diwygiedig (yn weithredol o 1 Medi 2022) a bennwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio, Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA): Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg, ac yn cytuno i ymrwymo iddo.

Bydd hefyd angen i fyfyrwyr cyflogedig gofrestru'n ffurfiol â Chyngor y Gweithlu Addysg fel ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith.

Mae hyn yn golygu:

a) Os mynegir pryder nad ydych yn cyflawni neu'n cynnal disgwyliadau'r Cod ar lefel sy'n briodol ar gyfer cam eich astudiaethau ar gyfer cymhwyster TAR (Cymru), ac nad yw dulliau cymorth eraill wedi bod yn ddigonol, efallai y cewch eich cyfeirio o dan ein Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.

   Gall hyn arwain at y canlynol:

   - gosod amodau fel eich bod yn gallu parhau i astudio ar gyfer TAR.
   - peidio â dyfarnu TAR.
   - eich atal dros dro rhag astudio ar gyfer TAR.

- gwaharddiad rhag astudio (h.y. terfynu cofrestriad ar gyfer TAR).
- diarddel o'r Brifysgol Agored

b) Rydych yn cytuno i roi gwybod i Gyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd (Wales-PGCE@open.ac.uk) cyn gynted â phosibl am unrhyw fater a all beri pryder ynglŷn â'ch gallu i gydymffurfio â Chod Ymddygiad ac Ymarfer yr Awdurdod Rheoleiddio.

2.2 Er y gellir bod wedi dyfarnu credyd modiwl i chi sy'n bodloni gofynion academaidd ac ymarfer dysgu TAR (Cymru), gallwn benderfynu peidio â dyfarnu'r cymhwyster ar sail argymhelliad Panel Addasrwydd i Ymarfer os bydd yn penderfynu nad ydych wedi cyrraedd y safonau gofynnol yng Nghod Ymddygiad ac Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg o ganlyniad i faterion a ddigwyddodd cyn i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu.

2.3 Os bydd cymhwyster TAR wedi'i ddyfarnu a daw unrhyw faterion a ddigwyddodd cyn i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu i'r amlwg wedi hynny a ddylai, ym marn Panel Addasrwydd i Ymarfer, fod wedi cael eu datgan ac a fyddai wedi arwain at beidio â dyfarnu cymhwyster TAR (Cymru), caiff y mater ei gyfeirio at ein Pwyllgor Disgyblu Canolog. Mae gan y Pwyllgor Disgyblu Canolog y pŵer i dynnu cymhwyster TAR (Cymru) yn ôl.

2.4 Os na chaiff cymhwyster TAR (Cymru) ei ddyfarnu, ni fyddwch yn gymwys i gofrestru i ymarfer fel athro. Os byddwch wedi llwyddo i gwblhau modiwl(au), mae'n bosibl y gall y credyd gyfrif tuag at gymwysterau eraill nad ydynt yn rhan o Raglen TAR, ar yr amod nad oes gennych unrhyw gyfyngiadau disgyblu eraill.

2.5 Byddwch yn ymwybodol na fydd cael cynnig lle ar y cymhwyster gennym ni na chwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus yn sicrhau y cewch eich cynnwys ar y Gofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cadw'r hawl i benderfynu a gewch ymuno â'r gofrestr broffesiynol ar y pwynt cofrestru. Cyfeiriwch at ganllawiau Cyngor y Gweithlu Addysg am y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer y Gofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru.

2.6 Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r Polisi Urddas a Pharch wrth ryngweithio â'n staff mewnol ni a staff allanol (h.y. y rheini yn yr ysgol bartner). Mae hyn yn cynnwys rhyngweithio wyneb yn wyneb a rhithwir drwy ein fforymau. Bydd methu â chadw at hyn yn arwain at y canlynol:

- gohirio'r defnydd o elfennau rhyngweithiol TAR (e.e., gohirio'r defnydd o'r fforwm);
- gosod amodau fel eich bod yn gallu parhau i astudio ar gyfer TAR;
- peidio â dyfarnu TAR.
- eich atal dros dro rhag astudio ar gyfer TAR;
- gwaharddiad rhag astudio (h.y. terfynu cofrestriad ar gyfer TAR);
- diarddel o'r Brifysgol Agored.

## 3 Ymrwymiad i Addysgu

3.1 Pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer cymhwyster TAR (Cymru) gyda ni, rydych yn cytuno i wneud y canlynol:

a) Cydweithredu ag unrhyw Arweinydd neu Ysgol Bartner lle rydych yn ymgymryd ag ymarfer dysgu. Bydd yn darparu cyfnodau priodol a digonol o ymarfer dysgu i'ch galluogi i gyflawni deilliannau dysgu cymhwyster TAR (Cymru) a bodloni gofynion Cyngor y Gweithlu Addysg, sy'n cynnwys 120 diwrnod (ysgol lawn) o ymarfer addysgu.

b) Cydweithredu ag unrhyw Arweinydd neu Ysgol Bartner lle rydych yn ymgymryd ag ymarfer dysgu i fodloni unrhyw ofynion rhesymol i gynnal enw da'r ysgol, Llywodraeth Cymru, a'r Brifysgol Agored, a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol ac ariannol a'u safonau gwasanaeth mewn cysylltiad â'ch cyfranogiad yn y cyfleoedd ymarfer dysgu a gynigir.

c) Cydymffurfio â'r strwythur rhaglen cywir ar gyfer y llwybr rydych yn cofrestru ar ei gyfer; Ni all unrhyw fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer rhaglen rhan amser ddefnyddio strwythur Llwybr Cyflogedig i

gyflawni'r rhaglen. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gall myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y Llwybr Cyflogedig ddefnyddio strwythur y rhaglen rhan amser.

d) **Yn achos Myfyrwyr cyflogedig:** cydymffurfio â pholisïau ac arferion cyflogaeth eu Hysgol Bartner sy'n Cymeradwyo a'u Hysgol Bartner.

e) **Yn achos Myfyrwyr cyflogedig:** yn unol â Chymal 5.2, sicrhau eich bod chi a'ch ysgol yn cydymffurfio â gofynion y rhaglen.

f) Ymgymryd ag unrhyw gyfleoedd ymarfer dysgu sydd eu hangen er mwyn cwblhau cymhwyster TAR (Cymru). Gall hyn gynnwys lefelau teithio rhesymol a all amrywio yn dibynnu ar leoliad daearyddol ac iaith yr astudiaeth (Cymraeg neu Saesneg) y dymunwch ymgymryd â'r rhaglen drwyddi.

g) Sicrhau eich bod yn mynd i bob sesiwn dysgu ymarferol a seminar ar-lein oni fydd amgylchiadau eithriadol sy'n eich atal rhag bod yn bresennol. Yn achos myfyrwyr cyflogedig, dylech hefyd sicrhau y caiff unrhyw amser astudio dynodedig ei ddefnyddio ar gyfer ei bwrpas dynodedig.

3.2 Bydd Ysgolion Partner yn gofyn i chi gydweithredu â'ch tiwtor ymarfer, cydlynydd ysgol a mentor, a fydd yn gwneud y canlynol:

a) cynnal arsylwadau a goruchwylio ymarfer, gan gynnig adborth i chi drwy gydol y cyfnodau ymarfer dysgu. Bydd yr arsylwadau hyn yn cynnwys llwyfannau ar-lein, gan gynnwys y defnydd o feddalwedd recordio. Mae disgwyl i fyfyrwyr ddefnyddio'r dulliau hynny. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod hyn ymhellach, cysylltwch â thîm TAR Cymru yn Wales-PGCE@open.ac.uk;

b) Cyflawni unrhyw gyfrifoldebau asesu sy'n ofynnol gan gymhwyster TAR (Cymru); ac yn

c) cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio, monitro ac adolygu gyda chi a gyda'i gilydd yn ôl yr angen;

3.3 Os byddwch yn torri'r Cymalau a nodir ym Mharagraffau 3.1 a 3.2 ac nad yw, ym marn eich mentor a Chyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd, yn rhesymol bosibl i chi gwblhau ymrwymiad addysgu, yna ni fydd yn ofynnol i'ch Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo neu'ch Ysgol Bartner na'r Brifysgol Agored gynnig cyfle arall i chi fodloni'r gofynion ymarfer dysgu ar gyfer y modiwl hwnnw. Os na fyddwch yn cyrraedd y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth a'ch bod yn methu eich profiad addysgu (a'r cyfleoedd ailsefyll), mae'n bosibl y caiff eich astudiaethau eu hatal yn unol â'r Amodau Cofrestru (Adran E2 "ein hawl i ganslo eich cofrestriad neu ymrestriad").

3.4 Os bydd anawsterau'n codi yn ystod profiad ymarfer dysgu sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth ac sy'n tarfu ar eich dysgu, byddwn yn rheoli hyn ar y cyd ag ysgol eich lleoliad. Gall hyn gynnwys cynnig lleoliad amgen i chi.

3.5 Os na fydd ysgol y lleoliad yn rhoi digon o amser i chi gwblhau'r profiadau ymarfer dysgu gofynnol, byddwn yn trafod hyn â'r ysgol ac, os bydd angen, yn ceisio ymestyn eich cyfnod astudio er mwyn galluogi ysgol y lleoliad i gynnig digon o gyfleoedd ymarfer dysgu.

## 4 Ffioedd neu Gostau Astudio

4.1 O dan y Llwybr Cyflogedig, ni fydd disgwyl i fyfyrwyr wneud cyfraniad uniongyrchol tuag at gostau eu hastudiaeth. Caiff Myfyrwyr cyflogedig eu talu (cyflogi) gan ysgol a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru (Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo) i weithio fel athro heb gymhwyso tra byddant yn astudio ar gyfer eu cymhwyster TAR. Mae hyn ar bwynt 1 o leiaf o'r raddfa gyflog i athrawon heb gymhwyso, a hynny ar sail llawn amser. Caiff ffioedd Myfyrwyr ar y llwybr hwn eu hariannu gan grant hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru a chânt eu talu'n uniongyrchol i ni drwy gydol y cymhwyster.

4.2 O dan y Llwybr Rhan Amser, bydd Myfyrwyr wedi'u hunanariannu. Byddant yn atebol am eu ffioedd eu hunain fel y nodir ar dudalen we Ffioedd a Chyllid TAR yng Nghymru.

4.3 Os bydd myfyrwyr cyflogedig yn torri telerau'r Cytundeb Atodol hwn neu'n methu â chydymffurfio â'r prif Amodau Cofrestu, neu'n canslo neu'n terfynu eu  hastudiaethau, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i dalu costau eu hastudiaeth ar unwaith.

4.4 Os bydd Myfyrwyr rhan amser yn torri telerau'r Cytundeb Atodol hwn neu’n methu â chydymffurfio â'r prif Amodau Cofrestru, ni chaiff unrhyw ffioedd a dalwyd i ni eu had-dalu a gellir atal unrhyw drefniadau i Hepgor Ffioedd.

4.5 Yn achos Myfyrwyr cyflogedig, os byddwch wedi rhoi gwybodaeth gamarweiniol, anghywir neu dwyllodrus am eich amgylchiadau, mae'n bosibl y byddwch yn atebol yn bersonol i dalu rhywfaint o'ch costau astudio neu'r costau cyfan a gallwn ddod â'ch cofrestriad i ben.

4.6 Os gall Myfyrwyr rhan amser ganslo neu dynnu'n ôl o'u hastudiaethau, gwneir unrhyw ad-daliadau yn unol â Rheolau Ffioedd (Israddedig) Cymru (Adran 6: “Cancelling, deferring or withdrawing”). (Mae'r cymhwyster TAR, er mai cymhwyster i raddedigion ydyw, wedi'i ddylunio fel cymhwyster i fyfyrwyr israddedig at ddibenion ariannu).

4.7 Os byddwch, ar ôl trafod â ni, eich Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo a'ch ail ysgol, yn penderfynu tynnu’n ôl o'r Llwybr Cyflogedig, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i wneud cais i astudio ein cymhwyster TAR drwy'r Llwybr Rhan Amser. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm TAR yn Wales-PGCE@open.ac.uk.

## 5 Cytundeb ag Ysgol Bartner a Derfynir gennym Ni

5.1 Os byddwn yn terfynu'r cytundeb cydweithredu â'ch Ysgol Bartner ei derfynu, byddwn yn cymryd camau rhesymol, lle y bo'n bosibl, i'ch galluogi i orffen y rhaglen, gan gynnwys cwblhau pob modiwl angenrheidiol a chyflawni'r holl brofiadau ymarfer dysgu angenrheidiol.

5.2 Yn achos Myfyrwyr cyflogedig, os gwelir bod eich Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo yn torri telerau'r rhaglen mewn perthynas â'r cyflog a delir i chi, y pwnc (ar gyfer ysgolion uwchradd) sy'n destun ffocws eich ymarfer dysgu, neu faterion eraill o ran eich amserlen,

yna rydym yn cadw'r hawl i derfynu'r cytundeb hwnnw. Fel y nodwyd yn 5.1, byddwn yn cymryd camau rhesymol i'ch galluogi i orffen y rhaglen ond rydym yn cadw'r hawl i dynnu eich cofrestriad yn ôl os na fydd hyn yn bosibl.

5.3 Ar gyfer Myfyrwyr cyflogedig, os caiff eich cyflogaeth ei therfynu gan eich Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo drwy ddileu eich swydd, byddwn yn ceisio hwyluso dull i chi barhau ar y Llwybr Cyflogedig. Os na allwn wneud hyn, byddwn yn trafod eich opsiynau â chi, ac un o'r rhain yw'r posibilrwydd o symud i'r Llwybr Rhan Amser ar y cyflwyniad nesaf fydd ar gael. I drafod eich opsiynau, cysylltwch â thîm TAR yn Wales-PGCE@open.ac.uk.

5.4 Yn achos Myfyrwyr rhan amser, os na fydd eich Ysgol Bartner am i chi barhau â'ch lleoliad mwyach, neu os bydd unrhyw faterion eraill yn codi, byddwn yn gweithio gyda'r ysgol o dan ein Fframwaith Datrys Materion. Os na fydd modd datrys y materion, mae'n bosibl y cynigir lleoliadau amgen i chi, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

5.5 Ceir rhagor o fanylion ar Derfynu Cytundeb ag Ysgol Bartner o dan y pennawd 'Dad-ddethol Ysgolion o'r Bartneriaeth' yn nogfen Polisi Meini Prawf a Dad-ddethol ein Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae fersiwn Saesneg o'r Polisi Meini Prawf a Dad-ddethol ar gael hefyd.

## 6 Canslo neu Dynnu eich Cofrestriad yn Ôl

6.1 Gallwch arfer eich hawl o dan Reoliadau Contractau Defnyddwyr (Gwybodaeth, Canslo a Chostau Ychwanegol) (2013) i ganslo eich cofrestriad heb gosb hyd at 14 diwrnod calendr ar ôl dyddiad cadarnhau eich cofrestriad, ni waeth sut y telir eich ffioedd.

6.2 Gallwn ganslo eich cofrestriad neu ei dynnu'n ôl o dan yr amgylchiadau a nodir yn yr Amodau Cofrestru (Adran E: "Canslo neu Dynnu eich Cofrestriad yn Ôl"). Gallwn hefyd ganslo eich cofrestriad os na fyddwch yn gwneud y canlynol:

a) Ymgymryd â chyfnodau ymarfer dysgu gydag ysgol bartner.

b) Cynnal amodau'r rhaglen, fel cyflogaeth gan Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo neu fethiant i gynnal y safonau proffesiynol a ddisgwylir gan unrhyw Ysgol Bartner.

c) Cynnal safonau'r Awdurdod Rheoleiddio o ran eich iechyd, eich cymhwysedd a'ch safonau ymddygiad.

6.3 Yn achos Myfyrwyr cyflogedig, os caiff eich cyflogaeth ei therfynu gan eich Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo am eich bod yn torri telerau eich contract cyflogaeth â hi, ni allwch barhau ar Lwybr Cyflogedig y cymhwyster hwn. Efallai y gallwch wneud cais i symud i'r Llwybr Rhan Amser, yn dibynnu ar eich amgylchiadau. I drafod eich opsiynau, cysylltwch â thîm TAR yn Wal-es-PGCE@open.ac.uk.

6.4 Ar gyfer myfyrwyr rhan amser a chyflogedig, os byddwch yn penderfynu canslo eich cofrestriad ar gyfer cymhwyster TAR **cyn** dechrau astudio, bydd yn rhaid i chi drafod hyn â ni yn gyntaf er mwyn deall unrhyw oblygiadau. Yn achos Myfyrwyr cyflogedig, rhaid i chi hefyd drafod hyn gyda'ch Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo oherwydd gall hyn effeithio ar eich Telerau Cyflogaeth (a all gynnwys colli eich cyflogaeth). Caiff y penderfyniad hwn ei wneud gan eich Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo.

6.5 Os byddwch am dynnu eich cofrestriad ar eich rhaglen TAR yn ôl ar ôl i chi ddechrau astudio, bydd yn rhaid i chi drafod hyn â ni a'ch Ysgol Bartner yn gyntaf. Ar ôl i chi gadarnhau eich penderfyniad, bydd yn rhaid i chi wneud datganiad clir drwy ysgrifennu llythyr neu e-bost at Gyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd drwy Wales-PGCE@open.ac.uk, gan nodi eich penderfyniad yn ysgrifenedig. Os byddwch yn tynnu eich cofrestriad yn ôl, ni fyddwch yn gallu ailddechrau eich astudiaethau ac ni fyddwch yn fyfyriwr gyda'r Brifysgol Agored mwyach. Caiff y rheolau o ran atebolrwydd i dalu ffioedd eu pennu yn ôl llwybr y cymhwyster TAR rydych yn ei ddilyn:

i) Ni fydd Myfyrwyr ar y Llwybr Cyflogedig yn gymwys i gael unrhyw Ad-daliadau ar gyfer ffioedd a dalwyd ar yr adeg honno o'r rhaglen. Yn achos Myfyrwyr cyflogedig, gall hyn effeithio ar eich Telerau Cyflogaeth

gyda'ch Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo, a all gynnwys colli eich cyflogaeth. Caiff y penderfyniad hwn ei wneud gan eich Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo.

ii) Bydd myfyrwyr ar y Llwybr Rhan Amser yn ddarostyngedig i Reolau Ffioedd (Astudiaethau Israddedig) Cymru safonol Y Brifysgol. (Mae'r cymhwyster TAR, er mai cymhwyster i raddedigion ydyw, wedi'i ddylunio fel cymhwyster i fyfyrwyr israddedig at ddibenion ariannu).

6.6 Os byddwch wedi cwblhau unrhyw fodiwl(au) yn llwyddiannus ar adeg tynnu eich astudiaethau yn ôl, efallai y gallwch, yn amodol ar y Rheoliadau Academaidd (Cyrsiau a Addysgir), gyfrif y modiwlau hyn tuag at un o gymhwysterau eraill Y Brifysgol Agored y byddwch yn cofrestru ar ei gyfer y tu allan i Raglen TAR.

## 7 Eich Astudiaethau

7.1 Os byddwch yn absennol yn fynych neu am gyfnod estynedig o unrhyw ran o'r cymhwyster TAR, mae'n bosibl y gall hyn olygu bod pryder yn cael ei chodi a/neu sbarduno'r Fframwaith Cymorth Myfyrwyr Rhaid rhoi gwybod am unrhyw absenoldebau yn unol â phrosesau hysbysu am absenoldeb y rhaglen.

7.2 Fel arfer, dylech gwblhau eich cymhwyster TAR o fewn 24 mis i ddyddiad dechrau'r modiwl cyntaf. Gweler Adran 8: Newid eich Cynlluniau Astudio os credwch na fydd hyn yn bosibl.

7.3 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer dyfarniad TAR (Cymru), mae'n rhaid eich bod, ym marn Y Brifysgol Agored, yn bodloni gofynion academaidd Y Brifysgol Agored (a amlinellir yn y Rheoliadau Cymhwyster sy'n benodol i'r TAR), a gofynion y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ar gyfer pob modiwl, yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys cwblhau'r nifer statudol o ddiwrnodau ymarfer dysgu.

7.4 Os byddwch yn methu modiwl (gan gynnwys methu unrhyw arholiad ailsefyll neu ailgyflwyniad lle y bo'n berthnasol), bydd angen i chi adael y cymhwyster TAR. Os byddwch wedi dechrau astudio'r modiwl nesaf wrth i chi aros am

ganlyniadau a'ch bod wedi methu, ni fyddwch yn gallu cwblhau'r modiwl hwnnw a bydd y ffi ar gyfer y modiwl hwnnw'n cael ei had-dalu.

7.5 Os byddwch yn gadael neu os na fyddwch yn gymwys ar gyfer llwybr cyflogedig y cymhwyster TAR mwyach, gall hyn effeithio ar eich Telerau Cyflogaeth gyda'ch Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo, a all gynnwys colli eich cyflogaeth. Caiff y penderfyniad hwn ei wneud gan eich Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo.

7.6 Mae'n rhaid i chi lwyddo ym mhob modiwl er mwyn ennill y cymhwyster TAR. Os na fyddwch yn llwyddo yn yr Asesiad Diwedd Modiwl (EMA) cyntaf (sy'n cynnwys asesiad academaidd a gwerthusiad ymarfer dysgu), efallai y cewch eich gwahodd i'w ailgyflwyno y tro nesaf, yn dibynnu ar eich canlyniadau. Os na chynigir cyfle i chi ailgyflwyno'r EMA ar gyfer modiwl Blwyddyn 1, neu os na fyddwch yn llwyddo yn y modiwl ar ôl i chi ei ailgyflwyno, byddwn yn dod â'ch cofrestriad ar y cymhwyster i ben. Os na fyddwch yn llwyddo ym modiwl Blwyddyn 2, ni fydd y cymhwyster TAR yn cael ei ddyfarnu i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod unrhyw beth, cysylltwch â thîm TAR yn Wales-PGCE@open.ac.uk.

## 8 Newid Eich Cynlluniau Astudio (Gohirio eich astudiaethau neu Gymryd Seibiant Astudio)

8.1 Ni allwch oedi na gohirio eich astudiaethau ran o'r ffordd drwyddynt oni fydd amgylchiadau eithriadol. Caiff y rhain eu pennu yn ôl disgresiwn Cyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd ac (yn achos Myfyrwyr cyflogedig) Pennaeth yr Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo (gweler Atodiad A: amgylchiadau lle y gellir ystyried gohirio astudiaethau neu roi seibiant astudio i Fyfyrwyr gwblhau eu rhaglen TAR a chyflawni'r cymhwyster).

8.2 Os bydd angen i chi roi'r gorau i astudio eich modiwl presennol cyn i chi gyflwyno a llwyddo yn yr Asesiad Diwedd Modiwl (EMA), bydd angen i chi gysylltu â ni am gyngor. Byddwch yn ymwybodol nad oes sicrwydd y cewch ohirio eich astudiaeth TAR. Rhaid i chi drafod eich opsiynau gyda Chyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd

Wales-PGCE@open.ac.uk) Gall yr opsiynau gynnwys cyflwyno eich EMA y tro nesaf (oedi) neu ailddechrau'r modiwl yn y cyflwyniad nesaf (gohirio). Caiff unrhyw oblygiadau o ran astudio a ffioedd eu trafod â chi. Dylid trafod unrhyw oblygiadau o ran cyflogaeth ar gyfer Myfyrwyr cyflogedig â'ch Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo.

8.3 Os caniateir i chi ohirio ac y bydd y dystiolaeth asesu ar gyfer y modiwl a ailddechreuwyd yn parhau'n ddigyfnewid, gallwch gario unrhyw sgorau aseiniadau (Aseiniadau a gaiff eu Marcio gan Diwtor (TMA) drosodd a thystiolaeth a gasglwyd yn flaenorol yn eich e-bortffolio. Gallai gohirio eich astudiaeth effeithio ar eich cyflogaeth.

8.4 Gellir ystyried ceisiadau i ohirio os na fyddwch wedi gallu astudio oherwydd rhesymau y tu hwnt i'ch rheolaeth (gweler Atodiad A). Mae amgylchiadau eraill lle y gellir caniatáu gohirio yn cynnwys y canlynol:

i) os byddwch wedi cael eich gwahardd dros dro o dan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer ac wedi cael eich derbyn yn ôl wedi hynny.

ii) Yn achos Myfyrwyr cyflogedig, os byddwch yn colli eich cyflogaeth yn yr ysgol ac nad chi oedd ar fai, ac na allwn ddod o hyd i ysgol arall ar unwaith a fydd yn eich helpu i gwblhau’r cymhwyster TAR (Cymru). Yn yr achos hwn, gallech gael cynnig lle ar y Llwybr Rhan Amser pan fydd y cyflwyniad nesaf ar gael.

8.5 O dan rai amgylchiadau a thrwy gytundeb â ni a'ch Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo neu o dan y Polisi Addasrwydd i Astudio, efallai y caniateir i chi gymryd seibiant astudio (gweler Atodiad A). Mae hyn yn golygu y byddech yn cymryd seibiant o astudio rhwng cwblhau a llwyddo ym modiwl Blwyddyn 1 a chyn dechrau modiwl Blwyddyn 2. Gall hyn effeithio ar eich gallu i gwblhau'r cymhwyster TAR. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cymhwyster TAR, mae'n rhaid i bob astudiaeth gael ei chwblhau o fewn pedair blynedd i ddyddiad dechrau modiwl Blwyddyn 1. Mae'n rhaid trafod y weithdrefn a'r rhesymau dros gymryd seibiant astudio o'r fath gyda Chyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd a Phennaeth eich Ysgol

Bartner sy'n Cymeradwyo. Nid oes sicrwydd y byddech yn cael caniatâd i gymryd seibiant astudio.

8.6 Os na fydd yr astudiaethau wedi'u cwblhau o fewn pedair blynedd, ni fyddwch yn ennill y cymhwyster TAR nac argymhelliad i ddyfarnu SAC. Yn amodol ar y Rheoliadau Academaidd (Cyrsiau a Addysgir), gallech ddefnyddio unrhyw gredydau rydych eisoes wedi'u cwblhau ar gyfer cymhwyster arall Y Brifysgol Agored y byddwch yn cofrestru ar ei gyfer y tu allan i Raglen TAR.

## 9 Rhannu Gwybodaeth a Diogelu Data

9.1 Gallwn ni, Cyngor y Gweithlu Addysg, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol/Hwb ac Ysgolion Partner rannu gwybodaeth angenrheidiol am eich iechyd, anabledd, perfformiad academaidd, ymddygiad, addasrwydd i ymarfer a safonau proffesiynol. Caiff gwybodaeth o'r fath ei chadw'n ddiogel a dim ond yn unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr y caiff ei phrosesu, a chaiff ei chyfyngu i'r sefydliadau hyn.

9.2 Gall gwybodaeth am eich iechyd ac unrhyw anabledd rydych wedi dweud wrthym amdano ei rhannu ag ysgolion yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu addasiadau rhesymol i gydymffurfio â rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, Rheoliadau Addysg (Safonau Iechyd) (Cymru) 2004 neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol arall.

Hefyd, gall data (yn benodol am iechyd ac anabledd) gael eu rhannu gyda'r ysgol fel na fyddwch chi nac aelodau o'r cyhoedd yn wynebu risg wrth i chi gyflawni lleoliad.

9.3 Byddwn yn rhoi gwybod i'ch cyflogwr ar Gam 2 y Polisi Addasrwydd i Astudio os bydd hyn yn berthnasol i chi. Cyfeiriwch at y Polisi Addasrwydd i Astudio am ragor o fanylion.

9.4 Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr i gael gwybodaeth lawn am sut rydym yn casglu ac yn defnyddio eich data.

# Diffiniadau

## Cod Ymddygiad ac Ymarfer

Mae hwn yn cynnwys y safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer athrawon, a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio: Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg.

## Cyflwyno cymhwyster

Y pwynt lle y dyfernir eich cymhwyster i chi yn ffurfiol drwy ein prosesau dyfarnu.

## Tiwtor Cwricwlwm

Cyswllt allweddol athrawon dan hyfforddiant â'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

## Gohirio eich astudiaethau neu Gymryd Seibiant Astudio

Gohirio: O dan rai amgylchiadau (fel y'u nodir yn Atodiad A), efallai y byddwch yn penderfynu bod angen i chi roi'r gorau i astudio cyn i chi gyflwyno'r Asesiad Diwedd Modiwl (EMA) ar gyfer modiwl.  Byddai angen i chi wneud cais i ohirio a thrafod eich opsiynau gyda Chyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd (Wales-PGCE@open.ac.uk). Pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo, byddech yn cael caniatâd i roi'r gorau i astudio'r modiwl rydych wedi cofrestru arno ar hyn o bryd ac ailddechrau'r modiwl yn ei gyflwyniad nesaf. Nid oes sicrwydd y cewch ohirio'r cymhwyster TAR.

Cymryd seibiant astudio: o dan rai amgylchiadau (fel y'u nodir yn Atodiad A) neu o dan y Polisi Addasrwydd i Astudio, ac mewn cytundeb â ni a'ch Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo, efallai y caniateir i chi gymryd seibiant astudio rhwng modiwlau. Mae hyn yn golygu y byddech yn cymryd seibiant o astudio rhwng cwblhau Modiwl Blwyddyn 1 a chyn dechrau Modiwl Blwyddyn 2. Gall cymryd seibiant astudio effeithio ar eich gallu i gwblhau'r cymhwyster TAR.

## E-Bortffolio

Mae hwn yn cynnwys tystiolaeth a gyflwynwyd gan y Myfyriwr ar ddiwedd pob modiwl, i ddangos ei gynnydd tuag at gyflawni deilliannau'r cymhwyster TAR.

## Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo

Ysgol sy'n cyflogi athro dan hyfforddiant sy'n dilyn y rhaglen TAR. Caiff athrawon dan hyfforddiant eu cyflogi ar gyfradd athro heb gymhwyso a bennir gan y strwythur cyflog cenedlaethol i athrawon yng Nghymru**.**

## Ysgol Arweiniol

Ysgol sy'n aelod arweiniol o'n Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae gan yr ysgolion hyn lais strategol wrth reoli'r bartneriaeth a phennu ei chyfeiriad.

## Awdurdodau Lleol / Hwb

At ei gilydd, cefnogir Awdurdodau Lleol a Hybiau gan Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- helpu'r rheini sy'n addysgu plant a phobl ifanc.
- cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu hymdrechion.
- gwella canlyniadau dysgu ar gyfer pob person ifanc.
- sicrhau y darperir addysg a dysgu o ansawdd uchel.
- cefnogi a grymuso arweinwyr ysgol i arwain eu hysgolion yn well.

Yn benodol, mae Awdurdodau Lleol a Hybiau yn aelodau allweddol o Bartneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglen TAR Cymru drwy:

- ddarparu cysylltiadau cynhyrchiol o ansawdd uchel ag ysgolion ledled Cymru.
- cyfrannu at Bwyllgor Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Y Brifysgol Agored er mwyn chwarae rôl strategol a gweithredol ar y cyd â'r Brifysgol Agored.

## Y Mentor

Y prif gyswllt yn eich ysgol sy'n eich helpu i gwblhau eich astudiaethau TAR.

## Modiwl

Cyfres o unedau astudio; mae'r cymhwyster TAR yn cynnwys dau fodiwl. Mae'n rhaid i Fyfyriwr gwblhau'r asesiadau academaidd a bodloni'r gofynion ymarfer dysgu yn llwyddiannus ar gyfer pob modiwl er mwyn llwyddo.

## Llwybr Rhan Amser

Y llwybr drwy'r cymhwyster TAR yng Nghymru a hunanariennir gan fyfyrwyr. Gall Myfyrwyr wneud cais am fenthyciad myfyrwyr a grantiau cynhaliaeth rhan amser. Mae'r llwybr hwn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd oherwydd gallant gael profiad addysgu ymarferol rhan amser mewn ysgol ochr yn ochr â'u hymrwymiadau presennol.

## Ysgol Bartner

Ysgol lle bydd Myfyrwyr TAR rhan amser yn ymgymryd â chyfnodau ymarfer dysgu. Gall Ysgolion Partner gymeradwyo athro dan hyfforddiant a gyflogir yn eu hysgol sy'n dilyn y rhaglen TAR. Caiff athrawon dan hyfforddiant eu cyflogi ar gyfradd athro heb gymhwyso a bennir gan y strwythur cyflog cenedlaethol i athrawon yng Nghymru. Maent yn ffurfio rhan o'n Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon.

## Ymarfer dysgu/dysgu seiliedig ar ymarfer

Y term cyffredinol ar gyfer profiadau dysgu sydd wedi'u lleoli mewn amgylchedd ymarfer.

## Cyfnodau Ymarfer Dysgu

Amser profiad addysgu TAR dynodedig.

## Tiwtor Ymarfer

Tiwtor Addysg Gychwynnol i Athrawon profiadol o ysgol arall sy'n monitro eich cynnydd ar y cymhwyster TAR.

## Y Gofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru

Cofrestr o athrawon a staff cymorth ysgol ac addysg bellach, gweithwyr ieuenctid ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyflogwyr i sicrhau bod eu cyflogeion wedi'u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg cyn iddynt ddechrau gweithio. Mae hyn yn berthnasol i gyflogeion sy'n gweithio ar sail llawn amser, rhan amser (gan gynnwys fesul awr) neu gyflenwi.

## Llwybrau'r cymhwyster TAR

Mae dau lwybr i ennill y cymhwyster hwn:  mae'r Llwybr Cyflogedig a'r Llwybr Rhan Amser (y ddau yn cynnwys dau fodiwl, y mae'r modiwl cyntaf yn 60 credyd ar Lefel 6 (israddedig) a'r ail fodiwl yn 60 credyd ar Lefel 7 (ôl-raddedig).

## Llwybr Cyflogedig

Myfyrwyr a gyflogir gan ysgol wladol fel cynorthwyydd addysgu, neu mewn rôl nad yw'n rôl addysgu, a all wneud cais i'w hysgol eu cymeradwyo. Mae Myfyrwyr sy'n dilyn y llwybr hwn yn gweithio yn yr ysgol yn llawn amser a rhaid i'w cais gael ei gymeradwyo gan eu hysgol (a fydd yn talu eu cyflog). Caiff eu costau astudio eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Gall Myfyrwyr nad ydynt yn gweithio mewn ysgol wladol ar hyn o bryd wneud cais i ddilyn y Llwybr Cyflogedig ond bydd angen iddynt gael eu cymeradwyo gan ysgol wladol.

## Cydlynydd Ysgol

Uwch-aelod o staff ysgol, a ddarperir gan ysgolion.

## Ail Ysgol

Yr ail ysgol y caiff Myfyrwyr cyflogedig eu lleoli ynddi i gwblhau eu hymarfer dysgu.

## Recriwtio a Chymorth Myfyrwyr

Tîm Y Brifysgol Agored yng Nghymru sy'n delio ag ymholiadau am gofrestriadau ac sy'n rhoi cymorth ychwanegol bugeiliol, cyffredinol ac arbenigol (e.e. cymorth anabledd) i Fyfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau.

### Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr

Y Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr yw'r dull a ddefnyddir i roi cymorth ychwanegol i athro dan hyfforddiant yn ystod y rhaglen TAR. Mae wedi'i ddylunio i gefnogi athrawon dan hyfforddiant:

- A all gael budd o gyfnod o waith â ffocws penodol i unioni un neu fwy o feysydd eu hymarfer sy'n peri trafferth iddynt.
- Y gellid cefnogi eu llesiant neu eu gwydnwch.
- Sydd â'r potensial i ragori ar lefelau presennol eu cynnydd ac y mae angen cymorth arnynt i wneud hynny.

### Ni/Ein

Mae hyn yn cyfeirio at Y Brifysgol Agored.

### Chi

Yn cyfeirio atoch chi fel y Myfyriwr.

## Deddfwriaeth a Pholisïau Cysylltiedig

Cyfeiriwch at y polisïau canlynol ar y cyd â'r ddogfen hon:

### Dogfennau sy'n llywodraethu eich astudiaethau:

- Amodau Cofrestru
- Deddf Cydraddoldeb 2010 i Gymru, Lloegr a'r Alban
- Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer
- Addasrwydd i Astudio
- Rheoliadau sy'n benodol i raglen TAR

### Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data

- Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr

## Safonau'r Gymraeg

Yr iaith Gymraeg (Safonau'r Gymraeg)

Rydym yn un o nifer o brifysgolion a enwir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw fyfyrwyr yng Nghymru ddisgwyl cael gwasanaethau penodol gan Y Brifysgol Agored drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn Safonau'r Gymraeg Y Brifysgol Agored.

Mae hyn yn golygu bod croeso i chi siarad â'n tîm Recriwtio a Chynorthwyo Myfyrwyr yn Gymraeg neu gysylltu â'r brifysgol yn Gymraeg. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau fel rhywun sy'n defnyddio'r Gymraeg ar wefan Y Brifysgol Agored yng Nghymru.

### Gwerthoedd Siarter Ein Myfyrwyr

Cafodd y Siarter Myfyrwyr ei ddatblygu ar y cyd gennym ni ac Undeb Myfyrwyr Y Brifysgol Agored. Mae'n ddatganiad o'r gwerthoedd rydym yn eu rhannu a'r ymrwymiadau a wnawn i'n gilydd. Cafodd y ddogfen hon ei datblygu yn seiliedig ar werthoedd y Siarter Myfyrwyr.

### Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant yn rhan o bopeth a wnawn ac yn adlewyrchu ein cenhadaeth i fod yn agored i bobl, mannau, dulliau a syniadau. Rydym yn dathlu amrywiaeth a'r cryfderau sy'n deillio o hynny, gan herio cynrychiolaeth annigonol a gwahaniaethau mewn deilliannau yn ein sefydliad. Rydym yn hyrwyddo ac yn rheoli cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn cyflawni ein nodau strategol a'n dyletswyddau cydraddoldeb statudol. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy ddatblygu polisi cynhwysol.

### Datganiad yr Elusen

Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff Y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd.

# Ynglŷn â'r Ddogfen hon

## Crynodeb o'r Newidiadau Sylweddol ers y fersiwn flaenorol

Bu sawl newid pwysig ers y fersiwn flaenorol o'r polisi hwn. Sef:

a) Proses gyffredinol i ailstrwythuro'r ddogfen i gyd-fynd â thempled y Polisi Myfyrwyr newydd, gan gynnwys yr adrannau newydd 'Fformat Amgen' a 'Sut i gysylltu â ni', a symud y rhestr o bolisïau a deddfwriaethau cysylltiedig i ddiwedd y ddogfen.

b) Mae cyfeiriad at 'Rhestr termau' wedi'u diwygio i 'Diffiniadau'.

c) Paragraff newydd yn diffinio'r defnydd o 'ni' ac 'ein' yn y ddogfen hon.

d) Mae cyfeiriadau at 'Y Brifysgol Agored' yn y ddogfen hon wedi'u disodli gan 'ni' neu 'ein' er mwyn gwella'r darllenadwyedd.

e) Adran newydd 'Bwlio, Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol'.

f) Mae'r adran 'Rhoi Gwybod Mewn Lle Diogel' wedi'i ailenwi i 'Rhoi Gwybod am Fwlio ac Aflonyddu', a chyfeiriadau at 'Rhoi Gwybod Mewn Lle Diogel' wedi'u newid i 'Rhoi Gwybod a Chymorth'.

g) Mae cyfeiriadau at 'Weithiwr Cymorth Dysgu Ysgol' wedi'u disodli gan 'Ymarferydd Dysgu Seiliedig ar Waith'.

h) Bydd diwygiad o fewn y cwmpas yn nodi y bydd myfyrwyr yn gwneud cais am TAR (Cymru) gan ddilyn y broses yn y prosbectws ar-lein.

i) Esboniad o gymal 1.1 yn cynnwys cyfeiriadau at gyfyngiadau cyfreithiol neu amodau.

j) Esboniad o gymal 1.2 yn cynnwys cyfeiriadau at unrhyw un sy'n ddarostyngedig i amodau neu gyfyngiadau penodol.

k) Ehangu canlyniadau posibl y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer i gynnwys gwaharddiad rhag astudio a diarddel o'r Brifysgol Agored.

l) Esboniad o gymal 3.1c) y gall myfyrwyr, mewn amgylchiadau eithriadol, symud o'r Llwybr Cyflogedig i'r rhaglen rhan amser.

m) Diwygiad i gymal 3.2a) i ddisodli'r term ‘dulliau rhithiol’ i ‘lwyfannau ar-lein’.

n) Dileu cyfeiriadau at Gredydau Ffi drwy'r ddogfen.

o) Disodli cyfeiriad at ‘y Rheolau Ffioedd’ gyda ‘y Rheolau Ffioedd (Israddedig) Cymru’ a diwygio cyfeiriadau at yr adran.

p) Mae cymalau 5.3 a 5.4 wedi cael eu symud i adran 5 o adran 6.

q) Esboniad yng nghymal 6.4 yn egluro'n well ei fod yn cyfeirio at fyfyrwyr rhan amser a Llwybr Cyflogedig.

r) Ychwanegiad i gymal 8.4ii) i nodi y gellir cynnig lle ar y Llwybr Rhan Amser i fyfyrwyr os byddant yn colli eu cyflogaeth ysgol.

s) Mae'r term ‘Consortia Rhanbarthol’ wedi'i dynnu a'i ddisodli gan ‘Hyb’.

t) Mae'r cyfeiriad at ‘Gymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored’ wedi'i ddiwygio i ‘Undeb Myfyrwyr Y Brifysgol Agored’.

## Cytundebau Atodol a ddisodlir gan y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r fersiwn flaenorol o Gytundeb Atodol Amodau Cofrestru (TAR) 2024/25.

Mae'r ddogfen hon yn Gytundeb Atodol i'r prif Amodau Cofrestru. Rhoddir blaenoriaeth i'r telerau ac amodau yn y Cytundeb Atodol hwn dros yr Amodau Cofrestru lle maent yn wahanol.

## Gwybodaeth am y Ddogfen

Rhif y fersiwn: 1.0

Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd

Yn weithredol o: 1 Awst 2025

Dyddiad adolygu: Mawrth 2026

# Atodiad A

**Tabl 2**: **Amgylchiadau lle y <u>gellir</u> ystyried caniatáu i Fyfyrwyr ohirio neu gymryd seibiant astudio i gwblhau rhaglen TAR (Cymru) ac ennill y cymhwyster.**

| **Maen prawf** | **Amodau a nodiadau** | **Enghreifftiau o fathau o dystiolaeth ategol sydd ei hangen** |
|---|---|---|
| 1. Marwolaeth aelod agos o'r teulu, partner neu ddibynnydd. | Diffinnir aelod agos o'r teulu fel rhywun roeddech yn dibynnu arno (yn emosiynol neu'n ariannol) neu a oedd yn ddibynnol arnoch chi. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br>Copi ardystiedig o dystysgrif marwolaeth (gellir gwneud eithriad os digwyddodd y farwolaeth o fewn chwe wythnos cyn gwneud cais). |
| 2. Analluogrwydd annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi neu ar ran aelod agos o'r teulu o ganlyniad i salwch difrifol, damwain neu gyflwr meddygol. | Os oeddech yn ymwybodol o'r problemau meddygol cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod y cyflwr wedi gwaethygu neu ddirywio ers hynny, h.y. ni ellid bod wedi rhagweld ar ddechrau'r modiwl y byddai'r salwch neu'r cyflwr wedi cael effaith andwyol ar eich astudiaethau. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. (Mae'n rhaid bod cyfnod y salwch wedi effeithio ar amseru'r penderfyniad i dynnu'n ôl). |

| | | |
|---|---|---|
| 3. Anabledd | Yr addasiadau rhesymol a wnaed gan Y Brifysgol Agored er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban; Rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Diwygiad) (Gogledd Iwerddon) 2004 ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ar gyfer Gogledd Iwerddon;<br><br>Mae effaith anabledd ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy difrifol na'r disgwyl; neu<br><br>Mae eich anabledd neu anableddau wedi cael effaith gynyddol ar eich astudiaethau ers dyddiad dechrau'r modiwl. | Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwyydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa.<br><br>Tystiolaeth ategol o gofnodion y Brifysgol e.e. tiwtor neu Dîm Recriwtio a Chymorth Myfyrwyr Y Brifysgol Agored yng Nghymru. |
| 4. Analluogrwydd annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi o ganlyniad i feichiogrwydd neu famolaeth/tadolaeth neu fenthyg croth. | Os oeddech yn ymwybodol o'r beichiogrwydd cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod effaith y beichiogrwydd neu famolaeth/tadolaeth neu fenthyg croth ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br><br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan weithiwr iechyd proffesiynol, e.e. meddyg teulu, meddyg ymgynghorol neu fydwraig yn cadarnhau'r sefyllfa. |

| | | |
|---|---|---|
| 5. Analluogrwydd annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi o ganlyniad i fabwysiadu. | Os oeddech yn ymwybodol o'r mabwysiadu cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod effaith y broses fabwysiadu neu'r cyfrifoldebau gofalu ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Tystiolaeth ategol e.e. adroddiad gan y gwasanaethau cymdeithasol, asiantaeth mabwysiadu neu dystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. |
| 6. Analluogrwydd annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi o ganlyniad i ailbennu rhywedd. | Os oeddech wedi bod drwy'r broses ailbennu rhywedd cyn dyddiad dechrau'r modiwl neu os oeddech yn ymwybodol erbyn hynny o'r trefniadau i wneud hynny ar ôl y dyddiad hwnnw, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. |
| 7. Newid annisgwyl mewn amgylchiadau cyflogaeth sy'n golygu nad yw'n rhesymol bosibl i chi barhau i astudio oherwydd natur eithafol y gwaith, TG gwael neu ddiffyg cyfleusterau astudio. | Ni chaiff amgylchiadau a all ddigwydd fel arfer wrth ymgymryd â'ch cyflogaeth llwybr cyflogedig fel newid tasgau, cynnydd yn y llwyth gwaith neu ofynion teithio rhesymol eu hystyried. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br>e.e. llythyr neu e-bost gan eich Ysgol Bartner sy'n Cymeradwyo. |

| | | |
|---|---|---|
| 8. Camweinyddu ar ein rhan ni. | Camau gweithredu neu ddiffyg camau gweithredu y gellid eu hystyried yn gamweinyddu ar ein rhan ni ac sydd wedi effeithio ar eich cynnydd academaidd. Nid yw hyn yn cynnwys amgylchiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. | Unrhyw dystiolaeth berthnasol i gefnogi eich cais e.e. cofnod o gyswllt Myfyrwyr. |
| 9. Amgylchiadau eithriadol eraill o natur ddifrifol y tu hwnt i'ch rheolaeth. | Amgylchiadau y tu hwnt i'ch rheolaeth a wnaeth leihau'n sylweddol yr amser a oedd ar gael i chi astudio dros gyfnod parhaus. | Tystiolaeth ategol e.e., adroddiad gan y gwasanaethau brys, y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu neu gwnselydd, neu ddogfennaeth yswiriant y cartref. |
| 10. Newid annisgwyl mewn cyfrifoldebau gofalu. | Os oedd eich cyfrifoldebau gofalu ar waith cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol,<br>e.e. Llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwyydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa. |